# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 22 Mawrth 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4257

# 60(v4)

## Cofnod y Trafodion

Gweld Cofnod y Trafodion

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.58, atebodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Gofynnwyd cwestiynau 1 - 8 a 10 - 11. Tynnwyd cwestiwn 9 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.19

Gofynnwyd y 5 cwestiwn.

## Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 14.42

I Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant:

**David Rees (Aberafan):** Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cynnal â Llywodraeth y DU ynghylch y penderfyniad i adeiladu carchar ym Mhort Talbot? EAQ(5)0124(CC)

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.07

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau.

## 4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 15.07

**NDM6259**

**Jeremy Miles (Castell-nedd)**
**Lee Waters (Llanelli)**
**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)**
**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**
**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Cymru yn elwa ar arfordir hir a'r ail gyrhaeddiad llanw uchaf yn y byd.

2. Yn nodi ymhellach fod gweithgarwch economaidd yn gysylltiedig â'r môr eisoes yn werth tua £2.1 biliwn yng Nghymru, ac yn cynnal degau o filoedd o swyddi.

3. Yn credu y bydd ymrwymiad strategol i'r economi las yn galluogi Cymru i droi ein moroedd yn un o'n hasedion economaidd mwyaf.

4. Yn credu ymhellach y gall Cymru fod yn arweinydd ym maes ynni adnewyddadwy morol, twristiaeth a chwaraeon, pysgota, bwyd a dyframaethu, a gweithgynhyrchu a pheirianneg morol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Cynllun Morol uchelgeisiol i gefnogi datblygiad cynaliadwy yr economi las, a'i gwneud yn elfen ganolog o'i strategaeth economaidd newydd.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Datganiad y Llywydd**

Am 15.57, gwnaeth y Llywydd ddatganiad yn sgil y digwyddiadau a oedd yn mynd rhagddynt yn San Steffan. Cymerwyd y camau diogelwch priodol yn y Cynulliad, ac roedd y mater yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Dywedodd y Llywydd bod ein meddyliau gyda'n cydweithwyr a phawb yn San Steffan yn y cyfnod anodd hwn.

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y goblygiadau i Gymru wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd

Dechreuodd yr eitem am 16.04

**Datganiad y Llywydd**

Am 16.17, bu i'r Llywydd ohirio trafodion y diwrnod yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, yn sgil yr hyn oedd yn cael ei drin i fod yn ddigwyddiad difrifol o frawychiaeth yn San Steffan. Caiff busnes y Cynulliad ei aildrefnu maes o law.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.18

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 28 Mawrth 2017.**

## 6 Dadl Plaid Cymru

## 7 Cyfnod pleidleisio

## 8 Dadl Fer

Daeth y cyfarfod i ben am 16.18

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 28 Mawrth 2017**